



Adolygiad o Drefniadau Cymunedol Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Adroddiad Argymhellion Terfynol

Mawrth 2025

**ADOLYGIAD O DREFNIADAU CYMUNEDAU
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

ADRODDIAD ARGYMHELLION TERFYNOL

Tudalen		Gynnwys
Pennod 1	Crynodeb o'r Cynigion Drafft	1
Pennod 2	Polisi Maint Cyngor	2
Pennod 3	Yr Argymhellion Terfynol	3-57
Pennod 4	Ymatebion i'r Adroddiad yma	58
ATODIAD 1	TREFNIADAU CYMUNEDAU PRESENNOL	
ATODIAD 2	TREFNIADAU CYMUNEDAU A ARGYMHELLIR	

Mawrth 2025

Pennod 1. CRYNODEB O'R ARGYMHELLION TERFYNOL

1. Cynhelir yr adolygiad cymunedol yma o Fwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 a dogfen cylch gorchwyl yr Awdurdod.
2. Mae'r Cyngor yn argymell newid i drefniant cymunedau a wardiau cymuned a ddylai sicrhau bod cymunedau'n parhau i adlewyrchu hunaniaeth leol a hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ledled ardal y prif Gyngor.
3. Mae prif ardal Rhondda Cynon Taf yn cynnwys 39 o gymunedau ar hyn o bryd.
4. Mae'r Cyngor yn argymell newid ffiniau 33 o gymunedau ar draws ardal y prif Gyngor.
5. Nid yw'r Cyngor wedi argymell unrhyw newidiadau i 6 chymuned ledled ardal y prif Gyngor:
**Cwm-bach, Llwydcoed, Trealaw, Trehafod, Tylorstown ac
Ynys-y-bŵl a Choed-y-Cwm.**
6. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft derbyniodd y Cyngor sylwadau gan 2 Gyngor Tref a Chymuned, 1 Cynghorydd Bwrdeistref Sirol a Chomisiynydd y Gymraeg. Caiff yr holl sylwadau eu cyhoeddi ar [wefan](#) yr Awdurdod.
7. Yna cafodd yr holl gyflwyniadau eu hystyried gan Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf cyn eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Cyngor.
8. Disgrifir pob argymhelliad yn fanwl gyda mapiau yn dangos y newidiadau ym Mhennod 3 yr adroddiad yma.
9. Bydd ffigurau etholwyr 2023 yn cael eu defnyddio yn y tablau ym Mhennod 3 yr adroddiad yma.
10. Bydd unrhyw newidiadau i'r enwau Cymraeg a Saesneg presennol ar gyfer ardaloedd Cymunedol neu wardiau Cymunedol fel yr argymhellir gan Gomisiynydd y Gymraeg hefyd yn cael eu manylu ym Mhennod 3 a thrwy gydol yr adroddiad.
11. O ganlyniad i'r newidiadau a argymhellir i'r ffiniau cymunedol, mae'r Cyngor yn argymell bod yr un newidiadau yn cael eu cymhwyso i wardiau etholiadol presennol Rhondda Cynon Taf.

Pennod 2. POLISI MAINT CYNGOR

1. Mae'r Polisi Maint Cyngor wedi'i nodi yn y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad. Er cyflawnder, caiff y polisi ei ddarparu yn y ddogfen yma.
2. Bydd adolygiad cymunedol y Cyngorau yn cael ei gynnal yn amodol ar adran 25 o'r Ddeddf ac felly bydd yn canolbwyntio ar wneud newidiadau i ffiniau er mwyn sicrhau bod ffiniau cymunedol yn adlewyrchu hunaniaeth a buddiannau cymunedau ardal y Prif Gyngor, a'u bod yn effeithiol ac yn gyfleus. Dim ond pan fydd newidiadau i ffiniau cymunedol neu wardiau cymunedol y bydd unrhyw newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol yn cael eu gwneud.
3. Mae'r Cyngor wedi datgan y dylai cymunedau gael eu cynrychioli gan ddim llai na 7 cynghorydd. Ni ddylai fod gan ardaloedd Cyngorau Cymuned lai na chyfanswm o 700 o etholwyr (h.y. cyfanswm y wardiau cymunedol yn ardal y cyngor tref/cyngor cymuned hwnnw);
4. Mae'r Prif Gyngor hefyd wedi datgan y dylai wardiau cymunedol gynnwys dim llai na 250 o etholwyr, a'r cymarebau cyngorwyr i etholwyr yw:
O leiaf 1: 500 ar gyfer ardaloedd trefol, ac
O leiaf 1: 250 ar gyfer ardaloedd gwledig/cymysg;

Pennod 3. YR ARGYMHELLION TERFYNOL

1. Caiff argymhellion y Cyngor eu disgrifio yn fanwl yn y bennod yma. Ar gyfer pob argymhelliad newydd mae'r adroddiad yn nodi:
 - Enw(au) yr ardaloedd cymunedol presennol sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn ffurfio'r cymunedau newydd diwygiedig arfaethedig, gyda manylion unrhyw newidiadau i'r enw a argymhellir;
 - disgrifiad byr o'r trefniadau cymunedol presennol o ran nifer yr etholwyr a threfniadau'r wardiau (os yw'n berthnasol). Yr etholwyr a gaiff eu defnyddio yn y ddogfen yma yw'r ffigurau ar gyfer 2023;
 - dadleuon allweddol a wnaed yn ystod trafodaethau'r Cyngor;
 - cyfansoddiad y trefniadau cymunedol a argymhellir;
 - tabl sy'n nodi'r trefniadau Cyngor Cymuned wedi'u hargymell gan gynnwys yr amrywiad o'r gymhareb etholwyr fesul cynghorydd o fewn wardiau pob cymuned; a,
 - map o'r gymuned a/neu ward gymunedol wedi'i hargymell.

Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun

2. Mae'r trefniadau cymunedol presennol yn Llanharan yn cynnwys 3 ward: Brynna, Llanharan a Llanilid. Mae gan y Gymuned gyfanswm o 6,862 o etholwyr ac fe'i chynrychiolir gan 14 o gynghorwyr cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y Cynghorwyr fel a ganlyn:

Wardiau	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd
Brynna	2,100	6	350
Llanharan	2,888	6	481
Llanilid	1,874	2	937
CYFANSWM	6,862	14	490

3. Mae'r trefniadau cymunedol presennol yn Llanhari yn cynnwys 2 ward: Llanhari a Thylegarw. Mae gan y Gymuned gyfanswm o 3,398 o etholwyr ac fe'i chynrychiolir gan 9 cynghorydd cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y Cynghorwyr fel a ganlyn:

Wardiau	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd
Llanhari	2,762	8	345
Tylegarw	636	1	636
CYFANSWM	3,398	9	378

4. Mae'r trefniadau cymunedol presennol yn Llantrisant yn cynnwys 4 ward: Beddau, Tref Llantrisant, Tonysguboriau a Thyn-y-nant. Mae gan y Gymuned gyfanswm o 10,946 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 14 Cynghorydd Cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y Cynghorwyr fel a ganlyn:

Wardiau	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd
Beddau	3,147	4	787
Tref Llantrisant	3,276	4	819
Tonysguboriau	2,051	3	684
Tyn-y-nant	2,472	3	824
CYFANSWM	10,946	14	782

5. Mae trefniadau presennol y Cyngor Tref ym Mhont-y-clun yn cynnwys 3 ward: Canol Pont-y-clun, Dwyrain Pont-y-clun a Gorllewin Pont-y-clun. Mae gan y dref gyfanswm o 6,215 o etholwyr ac fe'i chynrychiolir gan 11 o gynghorwyr tref. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y Cynghorwyr fel a ganlyn:

Wardiau	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd
Canol Pont-y-clun	2,314	4	579
Dwyrain Pont-y-clun	1,913	3	638
Gorllewin Pont-y-clun	1,988	4	497
CYFANSWM	6,215	11	565

Sylwadau

6. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, derbyniodd y Cyngor 2 o sylwadau yn ymwneud â Chymuned Llanhari oddi wrth: Y Cynghorydd Cymuned Feist a Swyddog Cofrestru Etholiadol yr Awdurdod. Derbyniodd y Cyngor 2 o sylwadau yn ymwneud â Chymuned Llantrisant oddi wrth: Joel James AS a Chyngor Tref Pont-y-clun Derbyniodd y Cyngor 5 o sylwadau yn ymwneud â Chymuned Pont-y-clun oddi wrth: Cyngor Tref Pont-y-clun, y Cynghorydd Sirol Paul Binning, 4 o drigolion Pont-y-clun a Swyddog Cofrestru Etholiadol yr Awdurdod. Mae'r Sylwadau ar gael ar wefan y Cyngor.
7. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft derbyniodd y Cyngor 1 sylw gan Gyngor Cymuned Llanharan yn cefnogi'r newidiadau i ffiniau'r ardal. Fodd bynnag, cynigiwyd y dylai pob ward gael 5 Cynghorydd Cymuned yr un, sef cyfanswm o 15. Derbyniodd y Cyngor 1 gynrychiolaeth gan Gyngor Tref Pont-y-clun yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig ar gyfer eu hardal. Mae'r Sylwadau ar gael ar wefan y Cyngor.

Argymhellion ffiniau wardiau cymunedol

8. Mae'r Cyngor yn argymell cymhwyso 7 newid i ffiniau wardiau cymunedol presennol sy'n cynnwys trosglwyddo ardaloedd rhwng y wardiau cymunedol canlynol:

- Llanharan i Donysguboriau
- Llanharan i Orllewin Pont-y-clun
- Llanilid i Lanharan
- Canol Pont-y-clun i Ddwyrain Pont-y-clun
- Dwyrain Pont-y-clun i Dref Llantrisant
- Tonysguboriau i Ganol Pont-y-clun
- Tyle-garw i Orllewin Pont-y-clun

9 Llanharan i Donysguboriau

Mae'r Cyngor yn argymell trosglwyddo rhan o Gymuned Llanharan i ward Tonysguboriau yng Nghymuned Llantrisant. Mae'r argymhelliad yma'n effeithio ar 171 o etholwyr yn natblygiad preswyl Neuadd Glan-elái ac mae'n seiliedig ar y sylw a dderbyniwyd gan Joel James MS ac a gefnogir gan Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r Cyngor yn credu bod y newid yma'n adlewyrchu hunaniaeth leol ac yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Mae'r argymhelliad i'w weld ar y map ar dudalen 10.

10. Llanharan i Orllewin Pont-y-clun

Mae'r Cyngor hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o Ystad Ddiwydiannol Lôn Coedcae ac Ystad Ddiwydiannol Glan-élai o ward Llanharan Cyngor Cymuned Llanharan i ward Gorllewin Pont-y-clun, Cyngor Tref Pont-y-clun. Bydd hyn yn creu ffin glir rhwng cymunedau Llanharan a Phont-y-clun ar hyd yr A473 ac yn effeithio ar 11 o etholwyr. Ar hyn o bryd, mae'r unedau diwydiannol eraill i'r Gorllewin a'r De yn rhan o ward Tylegarw yng Nghymuned Llanhari, sydd hefyd yn destun trosglwyddiad posibl i Orllewin Pont-y-clun (gweler argymhelliad 15 isod). Mae'r argymhelliad yma'n seiliedig ar y sylwadau a dderbyniwyd gan Gyngor Tref Pont-y-clun ac fe'i cefnogir gan Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r Cyngor yn credu bod yr argymhelliad yma'n adlewyrchu hunaniaeth leol ac yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol. Mae'r argymhelliad i'w weld ar y map ar dudalen 11.

11. **Llanilid i Lanharan**

Mae'r Cyngor hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Llanilid i ward Llanharan. Ar hyn o bryd, mae'r ffin bresennol rhwng y ddwy ward yn gorwedd o fewn datblygiadau tai newydd. Cyflwynodd y Swyddog Cofrestru Etholiadol hwn yn rhan o'i ymateb i'r ymgynghoriad, a chyflwynodd y Cynghorydd Cymuned Feist ffin fwy addas a gytunwyd gan Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r argymhelliad yma'n effeithio ar 597 o etholwyr sy'n byw i'r Gogledd o'r A473 Heol Pen-y-bont, gydag enwau strydoedd yn cynnwys Maes yr Awdur, Coedlan y Glowyr, Ffordd y Gwaith Glo, Coedlan Hunters, Clos Meiros, Rhodfa Powell a Ffordd y Beirdd. Hefyd strydoedd i'r de o'r A473, gan gynnwys Ffordd Dol y Coed, Ffordd y Dolau a Ffordd y Dreftadaeth. Mae'r Cyngor yn credu bod y newid yma'n adlewyrchu hunaniaeth leol ac yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Mae'r argymhelliad i'w weld ar y map ar dudalen 12.

12. **Canol Pont-y-clun i Ddwyrain Pont-y-clun**

Mae'r Cyngor hefyd yn argymhell symud stryd Delfryn o Ganol Pont-y-clun i Ddwyrain Pont-y-clun. Bydd hyn yn symud y ffin bresennol i'r Gorllewin o Ddwyrain Pont-y-clun. Mae'r argymhelliad yma'n seiliedig ar y sylwadau a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Sir Paul Binning a 4 o drigolion Delfryn ac a gefnogir gan Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn effeithio ar 88 o etholwyr Mae'r Cyngor yn credu bod y newid yma'n adlewyrchu hunaniaeth leol ac yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Mae'r argymhelliad i'w weld ar y map ar dudalen 13.

13. **Dwyrain Pont-y-clun i Dref Llantrisant**

Mae'r Cyngor hefyd yn argymhell trosglwyddo ardal o'r Dwyrain o ward Dwyrain Pont-y-clun i ward Tref Llantrisant Cyngor Cymuned Llantrisant. Nid yw'r argymhelliad yma'n effeithio ar etholwyr y wardiau a bydd yn defnyddio'r A4119 fel ffin rhwng y cymunedau. Mae'r argymhelliad yn seiliedig ar sylwadau a dderbyniwyd gan Gyngor Tref Pont-y-clun ac fe'i cefnogir gan Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r argymhelliad i'w weld ar y map ar dudalen 14.

14. **Tonysguboriau i Ganol Pont-y-clun**

Mae'r Cyngor hefyd yn argymhell trosglwyddo ardal i'r De o ward Tonysguboriau Cyngor Cymuned Llantrisant i ward Canol Pont-y-clun Cyngor Tref Pont-y-clun. Eto, defnyddir yr A473 i greu ffin glir rhwng cymunedau Llantrisant a Phont-y-clun a bydd yn effeithio ar 2 o etholwyr. Yn ogystal â 2 eiddo preswyl, bydd hyn yn trosglwyddo'r ardal gan gynnwys Leekes ac Ysgol Gyfun y Pant. Mae'r argymhelliad yma'n seiliedig ar sylw a dderbyniwyd

gan Gyngor Tref Pont-y-clun ac fe'i cefnogir gan Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r argymhelliad i'w weld ar y map ar dudalen 15.

15. **Tyle-garw i Orllewin Pont-y-clun**

Mae'r Cyngor yn argymell uno ward Tylegarw yng Nghymuned Llanhari â ward bresennol Gorllewin Pont-y-clun yng Nghymuned Pont-y-clun. Cyflwynwyd y sylw cychwynnol i drosglwyddo rhan o ward Tylegarw gan Gyngor Tref Pont-y-clun a chafodd ei ddiwygio wedyn gan Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gynnwys y ward gymunedol gyfan. Drwy wneud y newid yma, bydd ardal ward gymunedol Gorllewin Pont-y-clun wedyn yn cyd-ffinio â ward etholiadol Rhondda Cynon Taf, Gorllewin Pont-y-clun. Mae hyn yn effeithio ar ffin y ward gymunedol ar gyfer 636 o etholwyr, gan gynnwys trigolion Coed Mieri, Lôn Coedcae, Heol Llanhari, Llwyn Onn, Rhodfa'r Ddôl, Trem y Ddôl, Ffordd y Ddôl, Teras yr Orsaf, Llys Tylegarw, Teras Tylegarw, Tylegarw a Theras y Goedwig. O ganlyniad i'r argymhelliad yma, nid oes angen y cynnig drafft i addasu'r llinell derfyn yng Nghanolfan Ddiwydiannol y Gyffordd mwyach. Mae'r argymhelliad i'w weld ar y map ar dudalen 16.

Enwau a Argymhellir

16. Mae'r Cyngor yn argymell cadw'r holl enwau Cymraeg a Saesneg Cymunedol presennol.

Newidiadau Canlyniadol

Trefniadau Etholiadol Cyngorau Cymuned

17. **Llanharan**

Byddai'r trefniadau Cyngor Cymuned wedi'u hargymell yn Llanharan yn parhau i gynnwys 3 ward gymunedol: Mae gan Brynna, Llanharan a Llanilid gyfanswm o 6,680 o etholwyr a chânt eu cynrychioli gan 15 cynghorydd cymuned (cynnydd 1 cynghorydd).

Cymuned Llanharan						
Presennol				Argymhellir		
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwy r Cymuned	Etholwyr fesul Cynghory dd	Etholwyr	Cynghorwy r Cymuned	Etholwyr fesul Cynghory dd
Brynna	2,100	6	350	2,100	5	420
Llanharan	2,888	6	481	3,303	5	661
Llanilid	1,874	2	937	1,277	5	255
CYFANSWM	6,862	14	490	6,680	15	445

18. Rhaid i'r Cyngor ystyried y newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol cymunedol a fyddai'n digwydd yn dilyn y cynigion yma. Mae'r Cyngor yn argymell y sylwadau a dderbyniwyd gan Gyngor Cymuned Llanharan sydd gan bob Ward Gymunedol **5** cynghorydd i gyfrif am y cynnydd 5 mlynedd a ragwelir yn nifer yr etholwyr yn yr ardal. Mae hyn yn unol â Pholisi Maint Cyngor yr Awdurdod ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

19. Llanhari

Gyda'r argymhelliad i ward Tylegarw ddod yn rhan o ward gymunedol Gorllewin Pont-y-clun, byddai ward Llanhari yn dod yn ardal Gymunedol gyfan.

Cynigir y bydd gan gymuned Llanhari gyfanswm o 2,778 o etholwyr ac yn cael ei chynrychioli gan 8 cynghorydd cymuned.

Cymuned Llanhari						
Presennol				Argymhellir		
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwy r Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Etholwyr	Cynghorwy r Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd
Llanhari	2,762	8	345	2,762	8	345
Tylegarw	636	1	636	-	-	-
CYFANSWM	3,398	9	378	2,762	8	345

20. Rhaid i'r Cyngor ystyried y newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol cymunedol a fyddai'n digwydd yn dilyn y cynigion yma. Ni chynigir unrhyw newid i'r nifer presennol o 8 aelod ar gyfer gweddill ward Llanhari. Mae hyn yn unol â Pholisi Maint Cyngor yr Awdurdod ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

21. Llantrisant

Byddai'r trefniadau Cyngor Cymuned wedi'u hargymell yn Llantrisant yn parhau i gynnwys 4 ward gymunedol: Beddau, Tref Llantrisant, Tonysguboriau a Thyn-y-nant. Cynigir bod gan y gymuned gyfanswm o 11,115 o etholwyr ac yn cael ei chynrychioli gan 14 o gynghorwyr cymuned.

Cymuned Llantrisant						
Presennol				Argymhellir		
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwy r Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Etholwyr	Cynghorwy r Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd
Beddau	3,147	4	787	3,147	4	787
Tref Llantrisant	3,276	4	819	3,276	4	819
Tonysguboriau	2,051	3	684	2,220	3	740
Tyn-y-nant	2,472	3	824	2,472	3	824
CYFANSWM	10,946	14	782	11,115	14	794

22. Rhaid i'r Cyngor ystyried y newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol cymunedol a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion yma. Ni argymhellir unrhyw newid i'r Cyngor presennol o 14 aelod.

23. Pont-y-clun

Byddai'r trefniadau Cyngor Cymuned wedi'u hargymell ym Mhont-y-clun yn parhau i gynnwys tair ward gymunedol: Canol Pont-y-clun, Dwyrain Pont-y-clun a Gorllewin Pont-

y-clun. O ganlyniad i'r argymhellion yma, bydd nifer yr etholwyr yng Nghymuned Pont-y-clun yn cynyddu i 6,864.

Cymuned Pont-y-clun						
Presennol				Argymhellir		
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwy r Cymuned	Etholwyr fesul Cynghory dd	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghoryd d
Canol Pont-y-clun	2,314	4	579	2,228	4	557
Dwyrain Pont-y-clun	1,913	3	638	2,001	4	500
Gorllewin Pont-y-clun	1,988	4	497	2,635	4	659
CYFANSWM	6,215	11	565	6,864	12	572


24. Rhaid i'r Cyngor ystyried y newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol cymunedol a fyddai'n digwydd yn dilyn y cynigion yma. Mae'r Cyngor yn argymhell bod aelodaeth Cyngor Tref Pont-y-clun yn cynyddu i 12 gyda Chynghorydd Cymuned ychwanegol ar gyfer **Dwyrain Pont-y-clun** i adlewyrchu newidiadau yn etholwyr y ward. Mae'r newid yma'n unol â Pholisi Maint Cyngor yr Awdurdod ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Trefniadau ward etholiadol y prif gyngor

25. O ganlyniad i'r newidiadau a argymhellir i'r ffiniau cymunedol yma, mae'r Cyngor yn argymhell bod yr un newidiadau i'r ffiniau yn cael eu cymhwyso i wardiau etholiadol presennol Brynna a Llanharan, Llantrisant a Thonysguboriau, Canol Pont-y-clun, Dwyrain Pont-y-clun a Gorllewin Pont-y-clun. Fel y nodwyd, mae ardal Tyle-garw eisoes yn rhan o Ward Etholiadol Gorllewin Pont-y-clun.


Newidiadau Canlyniadol i Drefniadau Ward Etholiadol						
Presennol				Argymhellir		
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwy r	Etholwyr fesul Cynghory dd	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghoryd d
Brynna a Llanharan	6,862	3	2,287	6,680	3	2,226
Llantrisant a Thonysguboriau	5,327	2	2,663	5,496	2	2,748
Canol Pont-y-clun	2,314	1	2,314	2,228	1	2,228
Dwyrain Pont-y-clun	1,913	1	1,913	2,001	1	2,001
Gorllewin Pont-y-clun	2,624	1	2,624	2,635	1	2,635

Ardal i'w throsglwyddo o ward Llanharan yng Nghymuned Llanharan i ward Tonysguboriau yng Nghymuned Llantrisant




Allwedd


Newidiadau Arfaethedig i Wardiau Cymunedol
Ardal i'w Throsglwyddo



Ardal i'w throsglwyddo o ward Llanharan yng Nghymuned Llanharan i ward Gorllewin Pont-y-clun yng Nghymuned Pont-y-clun (argymellwyd hefyd i drosglwyddo Tylegarw i Orllewin Pont-y-clun).



Ardal i'w throsglwyddo o ward Llanilid i ward Llanharan yng Nghymuned Llanharan




Allwedd

Newidiadau Arfaethedig i Wardiau Cymunedol


Ardal i'w Throsglwyddo




Ardal i'w throsglwyddo o ward Canol Pont-y-clun i ward Dwyrain Pont-y-clun yng Nghymuned Pont-y-clun.



Ardal i'w throsglwyddo o ward Dwyrain Pont-y-clun yng Nghymuned Pont-y-clun i ward Tref Llantrisant Cyngor Cymuned Llantrisant.



Ardal i'w throsglwyddo o ward Tonysguboriau yng Nghymuned Llantrisant i ward Canol Pont-y-clun yng Nghymuned Pont-y-clun.



Allwedd

Newidiadau Arfaethedig i Wardiau Cymunedol

Ardal i'w Throsglwyddo




0 0.2 0.4



Cilomedrau

Argymhelliad i drosglwyddo holl ward bresennol Tylegarw yng Nghymuned Llanhari i ward Gorllewin Pont-y-clun yng Nghymuned Pont-y-clun.



26. **Tonyrefail, Cymer, Gilfach-goch, Pen-y-graig, Porth ac Ynys-hir**

Mae'r trefniadau cymunedol presennol yn Nhonyrefail yn cynnwys 6 ward: Coed-elái, Collena, Penrhiw-fer, Tretomas, Tylcha a Thyn-y-bryn. Mae gan y Gymuned gyfanswm o 9,600 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 11 Cynghorydd Cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y Cyngorwyr fel a ganlyn:

Wardiau	Etholwyr	Cyngorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cyngorydd
Coed-elái	1,575	1	1,575
Collena	1,657	3	552
Penrhiw-fer	1,065	2	532
Tretomas	1,420	1	1,420
Tylcha	1,288	2	644
Tyn-y-bryn	2,595	2	1,297
CYFANSWM	9,600	11	873

27. Mae cymuned Gilfach-goch yn ffurfio ardal Cyngor Cymuned Gilfach-goch ac mae'n cynnwys 3 ward: Garden Village, Gilfach-goch a Hendreforgan. Nid yw cymunedau Cymer, Pen-y-graig, Porth nac Ynys-hir yn cael eu cynrychioli gan Gyngor Cymuned neu Gyngor Tref.

Dim ond ar etholwyr cymuned Tonyrefail y mae'r argymhellion yma'n effeithio.

Sylwadau

28. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, derbyniodd y Cyngor sylwadau gan Swyddog Cofrestru Etholiadol yr Awdurdod. Caiff y sylwadau yma eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor

Argymhellion ffiniau wardiau cymunedol

29. Mae'r Cyngor yn argymhell cymhwyso 6 newid i'r ffiniau cymunedol presennol, sy'n cynnwys trosglwyddo ardaloedd rhwng yr ardaloedd cymunedol canlynol:

- Ward Hendreforgan yng Nghymuned Gilfach-goch i Dretomas
- Tyn-y-bryn i Dretomas

ac addasiad bach i'r ffin rhwng y Cymunedau canlynol:

- Ward Penrhiw-fer yng Nghymuned Tonyrefail a Phen-y-graig
- Ward Collena yng Nghymuned Tonyrefail a Chymer
- Porth ac Ynys-hir
- Porth a Chymer

30. Mae'r ffiniau presennol ar gyfer ward Hendreforgan yng Nghymuned Gilfach-goch a wardiau Cymunedol Tonyrefail, Tyn-y-bryn a Thretomas yn rhan o Ddatblygiad Preswyl newydd Parc Eirin. Bydd yr argymhelliad yma'n trosglwyddo Parc Eirin i gyd i ward gymunedol Tretomas. Bydd yr argymhelliad yma'n effeithio ar 47 o etholwyr yng Nghilgant Eiri, Ffordd Clydach, Ffordd Maendy a Stryd y Portref sydd ar hyn o bryd yn rhan o Dyn-y-bryn, a disgwylir datblygiad pellach. Trafodwyd y cyflwyniad yma a chytunwyd arno gan Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Mae'r Cyngor yn credu bod y newid yma'n adlewyrchu hunaniaeth leol ac yn darparu

ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Mae modd bwrw golwg ar y cynnig yma ar y map ar dudalen 20.

31. Mae'r Cyngor hefyd yn argymhell newid y ffin yn Nheras Simon rhwng ward Penrhiw-fer yng Nghymuned Tonyrefail a Chymuned Pen-y-graig, a'r ffin rhwng ward Collena yng Nghymuned Tonyrefail a Chymuned Cymer yn Rhodfa'r Sianel. Fydd dim un o'r argymhellion yma'n arwain at newidiadau yn etholwyr y Gymuned. Mae modd bwrw golwg ar yr argymhellion yma ar y map ar dudalennau 21 a 22.
32. Mae'r Cyngor yn argymhell addasu'r ffin rhwng cymunedau Porth ac Ynys-hir. Mae'r ffin bresennol yn torri drwy eiddo ar Deras y Coroni. Nid yw'r argymhellion yma'n effeithio ar etholwyr y cymunedau. Mae'r argymhellion i'w gweld ar y map ar dudalen 23.
33. Mae'r Cyngor hefyd yn argymhell addasu'r ffin rhwng cymuned Porth a chymuned Cymer. Mae'r ffin bresennol yn torri trwy nifer o erddi eiddo ar y Stryd Fawr. Nid yw'r argymhellion yma'n effeithio ar etholwyr y cymunedau. Mae'r argymhelliad i'w weld ar y map ar dudalen 24.

Enwau a Argymhellir

34. Mae'r Cyngor yn argymhell newid yr enw cymunedol Saesneg Cymmer i enw dwyieithog **Cymer** fel yr argymhellir gan Gomisiynydd y Gymraeg.
35. Mae'r Cyngor hefyd yn argymhell newid yr enw Saesneg Cymunedol ac enw Ward Cymunedol Gilfach Goch i'r enw dwyieithog **Gilfach-goch** fel yr argymhellir gan Gomisiynydd y Gymraeg.
36. Mae'r Cyngor hefyd yn argymhell newid enw cymuned Saesneg Ynyshir i enw dwyieithog **Ynys-hir** fel yr argymhellir gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Newidiadau Canlyniadol

Trefniadau Etholiadol Cynghorau Cymuned

37. Byddai'r trefniadau Cyngor Cymuned wedi'u hargymhell yn Nhonyrefail yn parhau i gynnwys 6 ward gymunedol: Coed-elái, Collena, Penrhiw-fer, Tretomas, Tylcha a Thyn-y-bryn, sef cyfanswm o 9,600 o etholwyr

Cymuned Tonypandy						
Presennol				Argymhellir		
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwy r Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Etholwyr	Cynghorwy r Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd
Coed-elái	1,575	1	1,575	1,575	2	787
Collena	1,657	3	552	1,657	3	552
Penrhiw-fer	1,065	2	532	1,065	2	532
Tretomos	1,420	1	1,420	1,467	2	733
Tylcha	1,288	2	644	1,288	2	644
Tyn-y-bryn	2,595	2	1,297	2,548	3	849
CYFANSWM	9,600	11	873	9,600	14	686


38. Rhaid i'r Cyngor ystyried y newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol cymunedol a fyddai'n digwydd yn dilyn y cynigion yma. Mae'r Cyngor yn cynnig cynyddu nifer

aelodau'r Cyngor i 14, gyda Chynghorydd ward ychwanegol ar gyfer wardiau **Coed-elái, Tretomas a Thyn-y-bryn**. Mae'r addasiadau yma'n adlewyrchu newidiadau yn etholaethau'r ward ac maen nhw'n unol â Pholisi Maint Cyngor yr Awdurdod ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Trefniadau ward etholiadol y prif gyngor

39. O ganlyniad i'r newidiadau a argymhellir i'r ffiniau cymunedol yma, mae'r Cyngor yn argymhell bod yr un newidiadau yn cael eu cymhwyso i wardiau etholiadol presennol Cymer, Gilfach-goch, Pen-y-graig, Porth, Dwyrain Tonyrefail, Gorllewin Tonyrefail a Tylorstown ac Ynys-hir. Nid oes unrhyw newidiadau i'r ffigurau etholwyr presennol ar gyfer y wardiau etholiadol yma.
40. Mae'r Cyngor hefyd yn argymhell newid yr enw ward etholiadol Saesneg o Tylorstown ac Ynyshir i **Tylorstown ac Ynys-hir**.


Ardaloedd i'w trosglwyddo o ward Hendreforgan yng Nghymuned Gilfach-goch a ward Tyn-y-bryn yng Nghymuned Tonyrefail. Y ddwy ardal i'w hychwanegu at ward Tretomas yng Nghymuned Tonyrefail.



Allwedd

Newidiadau Arfaethedig i Wardiau Cymunedol


 Ardal i'w Throsglwyddo




Addasu'r ffin rhwng Ward Penrhiw-fer yng Nghymuned Tonyrefail a Chymuned Pen-y-graig




Addasu'r ffin rhwng ward Collena yng Nghymuned Tonyrefail a Chymuned Cymer





Addasu'r ffin rhwng Cymuned y Porth a Chymuned Cymer



41. **Hirwaun, Rhigos a Phen-y-waun**

Mae cymuned Hirwaun yn rhan o ardal Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn sy'n cynnwys 2 ward: Hirwaun a Phenderyn.

Mae cymuned Rhigos yn cynrychioli holl ardal Cyngor Cymuned Rhigos .

Nid yw cymuned Pen-y-waun yn cael ei chynrychioli gan Gyngor Cymuned neu Gyngor Tref.

Nid yw'r argymhellion yma'n effeithio ar etholwyr y cymunedau.

Sylwadau

42. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, derbyniodd y Cyngor sylwadau gan Swyddog Cofrestru Etholiadol yr Awdurdod. Caiff y sylwadau yma eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor

Cynigion ffiniau cymunedol

43. Mae'r Cyngor yn argymell cymhwyso 2 newid i'r ffin gymunedol bresennol, sy'n cynnwys addasu'r ffin rhwng y cymunedau canlynol:
- Hirwaun a Rhigos
 - Hirwaun a Phen-y-waun
44. Mae'r Cyngor yn argymell addasu'r ffin rhwng ward Hirwaun yng Nghymuned Hirwaun a chymuned Rhigos i ddilyn yr afon oddi ar yr A465. Mae'r argymhelliad i'w weld ar y map ar dudalen 26.
45. Mae'r Cyngor hefyd yn argymell addasu'r ffin rhwng ward Hirwaun a chymuned Pen-y-waun. Mae'r ffin bresennol yn torri rhyw fymryn trwy rai eiddo ar Lôn Glo Ager. Mae'r argymhelliad i'w weld ar y map ar dudalen 27.

Enwau a Argymhellir

46. Mae'r Cyngor yn argymell cadw'r holl enwau Cymraeg a Saesneg Cymunedol presennol.

Newidiadau Canlyniadol

Trefniadau Etholiadol Cynghorau Cymuned

47. Dim newidiadau.


Trefniadau ward etholiadol y prif gyngor

48. O ganlyniad i'r newidiadau a argymhellir i'r ffiniau cymunedol yma, mae'r Cyngor yn argymell bod yr un newidiadau yn cael eu cymhwyso i wardiau etholiadol presennol Hirwaun, Penderyn a Rhigos a Phen-y-waun. Nid oes unrhyw newidiadau i'r ffigurau etholwyr presennol ar gyfer y wardiau etholiadol yma.

Addasu'r ffin rhwng ward Hirwaun yng Nghymuned Hirwaun a Chymuned Rhigos



Addasu'r ffin rhwng ward Hirwaun yng Nghymuned Hirwaun a Chymuned Pen-y-waun



49. **Dwyrain Aberdâr, Gorllewin Aberdâr, Gogledd Aberaman a De Aberaman**

Nid yw cymunedau Dwyrain Aberdâr, Gorllewin Aberdâr, Gogledd Aberaman a De Aberaman yn cael eu cynrychioli gan gyngor cymuned neu dref. Dyw'r argymhellion yma ddim yn effeithio ar etholwyr yr ardaloedd cymunedol.

Sylwadau

50. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, derbyniodd y Cyngor sylwadau gan Swyddog Cofrestru Etholiadol yr Awdurdod. Caiff y sylwadau yma eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor

Cynigion ffiniau cymunedol

51. Mae'r Cyngor yn argymhell cymhwyso 5 newid i'r ffin gymunedol bresennol, sy'n cynnwys addasu'r ffin rhwng y cymunedau canlynol:
- Dwyrain Aberdâr a Gorllewin Aberdâr
 - Dwyrain Aberdâr a Gogledd Aberaman
 - Gogledd Aberaman a De Aberaman
52. Mae'r Cyngor yn argymhell addasu'r ffin rhwng cymunedau Dwyrain Aberdâr a Gorllewin Aberdâr i'r Gorllewin oddi ar Glos Afon Dâr. Mae'r argymhelliad i'w weld ar y map ar dudalen 29.
53. Mae'r Cyngor yn argymhell addasu'r ffin rhwng cymunedau Dwyrain Aberdâr a Gorllewin Aberdâr yng Ngogledd y gymuned. Mae'r ffin bresennol yn torri rhyw fymryn trwy ardd eiddo ar Heol Gadlys. Mae'r argymhelliad i'w weld ar y map ar dudalen 30.
